# Nodiadau ynglŷn â Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor

## Mae'r llyfryn hwn yn esbonio sut i ddefnyddio ffurflen HBRR1W i wneud cais i ailhawlio Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor

- Sut i ddefnyddio ffurflen HBRR1W
- Ynglŷn â Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor
- Ad-daliad Ail Oedolyn
- Llenwi'r ffurflen
- Os ydych angen cymorth i lenwi'r ffurflen
- Beth sy'n digwydd nesaf
- Sut mae eich cyngor lleol yn casglu a defnyddio gwybodaeth
- Newidiadau mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich cyngor lleol amdanynt

## Sut i ddefnyddio HBRR1W

Rydym wedi eich darparu gyda'r ffurflen Ailhawlio Cyflym ar gyfer Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor ar ran eich Cyngor lleol. Mae'r ffurflen a'r nodiadau yn cael eu cynhyrchu yn genedlaethol, felly ni allwn ddarparu manylion cyswllt ar gyfer eich cyngor penodol chi. Gallwch ddod o hyd i'w manylion yn eich llyfr ffôn lleol.

Defnyddiwch ffurflen HBRR1W i hawlio un o'r budd-daliadau yma, neu'r ddau ohonynt, i chi a'ch partner, os oes gennych un. Rydym yn defnyddio partner i olygu person rydych yn briod â hwy neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy neu yn bartner sifil neu berson rydych yn byw hwy fel petaech yn bartneriaid sifil.

Cwblhewch y ffurflen HBRR1W dim ond os ydych wedi derbyn Cymhorthdal Incwm, Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Ceisio Gwaith yn ystod y 12 wythnos diwethaf.

Os ydych yn ailhawlio Cymhorthdal Incwm neu Budd-dal Analluogrwydd yna peidiwch â defnyddio ffurflen HBRR1W os:

- ydych wedi newid eich cyfeiriad ers eich cais diwethaf, **neu**
- os ydych wedi gwahanu oddi wrth eich partner, **neu**
- os oes gennych bartner newydd neu bartner gwahanol.

Os na allwch ddefnyddio ffurflen HBRR1W am unrhyw un o'r rhesymau hyn, gofynnwch i ni am ffurflen HCTB1W yn ei lle.

Os ydych yn ailhawlio Lwfans Ceisio Gwaith, yna peidiwch â defnyddio ffurflen HBRR1W os:

- ydych wedi newid eich cyfeiriad ers eich cais diwethaf, **neu**
- os ydych wedi gwahanu oddi wrth eich partner, **neu**
  - rydych yn gwneud cais ar y cyd am Lwfans Ceisio Gwaith, **ac**
  - nid oedd gennych bartner pan wnaethoch eich cais o'r blaen, **neu**
  - nid oedd yn rhaid i chi neu'ch partner fodloni rhai o'r amodau cais ar y cyd pan wnaethoch gais o'r blaen.

Os na allwch ddefnyddio ffurflen HBRR1W am unrhyw un o'r rhesymau yma, gofynnwch i ni am ffurflen HCTB1W yn ei lle.

## Ynglŷn â Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor

Gall Budd-dal Tai dalu'r cyfan neu ran o'ch rhent. Efallai gall hefyd roi ychydig o arian ychwanegol tuag at y pethau rydych yn gorfod talu amdanynt, fel glanhau ardaloedd rydych yn eu rhannu. Gall Budd-dal Treth Cyngor dalu'r cyfan neu rhan o'ch Treth Cyngor. Ni all helpu gyda chostau dŵr, neu os ydych yn byw yn Yr Alban, costau dŵr a charfosiaeth Awdurdod Dŵr Yr Alban.

## Ad-daliad Ail Oedolyn

Ad-daliad Ail Oedolyn yw Budd-dal Treth Cyngor i bobl sydd efallai heb bartner ond sydd yn rhannu eu cartref gyda rhywun sydd:

- yn 18 neu drosodd
- ar incwm isel, **ac**
- nad yw'n talu rhent iddynt.

## Llenwi'r ffurflen

Defnyddiwch inc du i lenwi'r ffurflen. Peidiwch â defnyddio pensil. Os ydych yn gwneud camgymeriad dylech ei groesi allan a rhoi'r ateb cywir wrth ei ochr. Peidiwch â defnyddio hylif neu dap cywiro.

Atebwch y cwestiynau yn **Negyddol** neu'n **Gadarnhaol** drwy roi **tic** yn y blwch priodol. Os ydych yn dewis ateb o restr o atebion, **ticiwch** y blwch sydd yn briodol i chi. Peidiwch â rhoi croes mewn unrhyw flwch. Os byddwch yn ateb cwestiwn gyda chroes efallai bydd eich cyngor lleol yn gorfod dychwelyd y ffurflen, a bydd hyn yn arwain at oedi gyda'r cais.

## Os ydych angen cymorth i lenwi'r ffurflen

Dylech gysylltu â'ch cyngor lleol os ydych angen unrhyw gymorth. Gallwch ddod o hyd i'w rhif ffôn a'u cyfeiriad yn yr adran rhifau busnes o'ch llyfr ffôn lleol.

Neu gallwch gysylltu â sefydliad fel eich Cyngor Ar Bopeth lleol. Gallwch hefyd ddod o hyd i'w rhif ffôn a'u cyfeiriad yn yr adran rhifau busnes o'ch llyfr ffôn lleol.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen, dylech ei llofnodi a'i hanfon i'ch cyngor lleol gyda'r prawf maent angen ei weld.

Bydd eich cyngor lleol yn edrych os oes gennych hawl i Gymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Ceisio Gwaith. Dylech gysylltu â'ch cyngor lleol os nad ydych wedi clywed ganddynt o fewn 14 diwrnod o anfon y ffurflen HBRR1W iddynt.

Trowch drosodd ▶

## Sut mae eich cyngor lleol yn casglu a defnyddio gwybodaeth

Bydd eich cyngor lleol yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei roi ar y ffurflen hon, ac mewn unrhyw brawf cefnogol rydych yn ei anfon, i brosesu eich cais am Fudd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor.

Gallant drosglwyddo gwybodaeth i asiantaethau neu sefydliadau eraill fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM, fel mae'r gyfraith yn caniatáu.

Gallant wirio gwybodaeth rydych wedi ei ddarparu, neu wybodaeth amdanoch a ddarparwyd gan rhywun arall, yn erbyn gwybodaeth arall sydd ganddynt. Efallai y cant wybodaeth amdanoch gan drydydd parti, neu roi gwybodaeth iddynt er mwyn:

- gwneud yn siwr bod y wybodaeth yn gywir
- atal neu ganfod troseddau, **a**
- diogelu arian cyhoeddus.

Mae'r trydydd partion hyn yn cynnwys adrannau o'r llywodraeth, awdurdodau lleol eraill a chyrff sector preifat fel banciau a sefydliadau all roi benthyg arian i chi.

Ni fyddant yn rhoi gwybodaeth amdanoch i unrhyw un arall, neu ddefnyddio gwybodaeth amdanoch at unrhyw ddiben arall oni bai bod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny.

Eich cyngor lleol yw'r rheolydd data ar gyfer y Ddeddf Diogelu Data.

Os hoffech gael gwybod mwy am y wybodaeth sydd ganddynt amdanoch, neu'r ffordd maent yn defnyddio y wybodaeth hynny, dylech ofyn iddynt.

## Newidiadau mae'n rhaid i chi ddweud wrth eich cyngor lleol amdanynt

Er enghraifft:

- os yw unrhyw un o'ch plant neu berson ifanc sy'n gymwys yn gadael yr ysgol neu gadael cartref
  - Mae *plentyn* yn golygu person o dan 16 oed rydych yn cael budd-dal plant ar ei gyfer.
  - Mae *person ifanc sy'n gymwys* yn golygu person 16, 17, 18 neu 19 oed rydych yn cael Budd-dal Plant er ei cyfer.
- os oes rhywun yn symud i mewn neu allan o'ch cartref, yn cynnwys lletywyr
- mae eich incwm, neu incwm rhywun sydd yn byw gyda chi, yn cynnwys budd-daliadau, yn newid
- mae eich cyfalaf neu cynilion yn newid
- rydych chi neu rywun sydd yn byw gyda chi yn mynd yn fyfyriwr, yn mynd ar Gynllun Hyfforddiant Ieuenctid, yn mynd i ysbyty neu gartref nyrsio, yn mynd i'r carchar, neu yn newid neu adael swydd
- mae eich rhent yn newid
- rydych yn symud
- rydych chi neu'ch partner yn mynd i fod i ffwrdd o gartref am fwy na mis
- rydych chi neu rywun sydd yn byw gyda chi yn dechrau gweithio
- rydych yn derbyn penderfyniad gan y Swyddfa Gartref, **neu**
- bod unrhyw beth rydych wedi ei ddweud wrthym yn newid.

Nid yw hwn yn restr llawn. Os nad ydych yn siwr, gofynnwch i'ch cyngor lleol am gyngor. Mae'n rhaid i chi ddweud wrthynt am unrhyw newid yn ysgrifenedig – nid yw galwad ffôn yn ddigonol.

Os na fyddwch yn dweud wrthynt am unrhyw newidiadau efallai byddwch yn colli arian mae gennych hawl iddo neu efallai byddwch yn cael gormod o fudd-dal. Mae'n rhaid i chi wneud yn siwr eich bod yn dweud wrthynt am unrhyw newidiadau. Peidiwch â dibynnu ar rywun arall i drosglwyddo'r neges ymlaen.

Mae'n drosedd i beidio â dweud wrth y cyngor am unrhyw newidiadau a all effeithio eich budd-dal. Efallai byddant yn cymryd achos llys yn eich erbyn, ac os byddant yn talu gormod o fudd-dal i chi, mwy na thebyg bydd angen i chi ei dalu yn ôl.